PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 7 MEDI 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Carter, Chris Davis, Lomax, Magill a/ac Sanders |

21 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb

22 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Lomax fuddiant personol gan ei fod yn byw mewn llety gwarchod y Cyngor.

23 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

24 : YMATEB Y CABINET I YMHOLIAD Y PWYLLGOR O'R ENW 'SUT I LEIHAU TROSEDD AC ANHREFN YN ECONOMI'R NOS MEWN CYFNOD O LYMDER'

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Dan De'ath, Aelod Cabinet (Sgiliau, Diogelwch ac Ymgysylltu) a Jon Day, y Rheolwr Datblygiad Economaidd i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle y diolchodd y Pwyllgor am yr ymchwiliad trylwyr a fforensig; nododd yr ystyrir Caerdydd yn gymharol ddiogel gan yr ymdrinnir â materion wrth iddynt godi; yn ogystal roedd hanes hir o weithio mewn partneriaeth yng Nghaerdydd. Cafodd y rhan fwyaf o argymhellion eu derbyn a chafodd rhai eu derbyn yn rhannol. Ar hyn o bryd mae Caerdydd yn y broses o ddatblygu strategaeth Economi Liw Nos gyda phartneriaid a fyddai'n llywio'r weledigaeth a dangos dealltwriaeth a rennir; wedyn câi cynllun gweithredu ei ddatblygu i ddilyn hyn. Esboniodd yr Aelod Cabinet mai ef bellach oedd Hyrwyddwyr yr Economi Liw Nos, mae hefyd yn eistedd ar y Bwrdd Rhaglen Ddiogelach a Chydlynol; ychwanegodd bod llawer o waith da yn cael ei wneud gyda Staff Bar a Drws.

Yn ogystal, atgoffwyd yr Aelodau bod £250 mil ar gyfer yr Economi Liw Nos o gynllun busnes BID, ac roedd y Cyngor a'r Heddlu yn gweithio mewn partneriaeth ar sut y câi'r arian hwn ei wario.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r Swyddog a gofynnodd am gwestiynau neu sylwadau gan Aelodau:

- Roedd yr aelodau'n ddiolchgar am yr ymateb gynhwysfawr i'r argymhellion ac roedd yn dda ganddynt glywed fod Aelod Cabinet bellach fel Hyrwyddwr yr Economi Liw Nos a gofynasant am eglurhad am ble byddai'r mater yn cael ei leoli gan ei fod yn croesi Datblygiad Economaidd a'r Cyfarwyddiaethau eraill. Dywedodd yr Aelod Cabinet y câi ei leoli gyda'r tîm Canol y Ddinas/BID o dan y Cyfarwyddwr Datblygiad Economaidd a byddai'r Arweinydd a CEX yn cymryd rhan trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Gofynnodd yr Aelodau am amserlen i'r Strategaeth fod yn barod a dywedwyd wrthynt nad oedd dyddiad ar hyn o bryd gan ei fod yn waith ar y gweill. Roedd yr Aelodau yn bryderus gan nad oedd Caerdydd wedi rhoi mewnbwn i mewn i Gynllun Llywodraeth Cymru.

- Gofynnodd yr Aelodau am farn ar yr Ardoll Hwyr y Nos.
  Rhoddodd yr Aelod Cabinet ei farn y byddai eisiau i'r BID setlo'n gyntaf; roedd cwestiynau ynglŷn ag ymarferoldeb yr ardoll ac nid oedd dinasoedd eraill wedi gweld yr arian yn dod i mewn fel y disgwylid; teimlodd mai'r BID oedd y dull mwyaf priodol ond y byddai rhywun yn archwilio'r ardoll. O ran graddfa amser, dywedodd yr Aelod Cabinet y dylai'r BID setlo'n gyntaf felly ni fyddai yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Ychwanegodd y Swyddogion y byddai ardoll yn codi arian yn uniongyrchol i'r Heddlu ayyb. ei ddefnyddio, a byddai'r BID yn galluogi cynllunio ar y pryd sut y defnyddir arian.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o ba fusnesau sy'n ymwneud â'r BID a dywedwyd wrthynt od y BID yn cynrychioli'r holl fusnesau yng nghanol y Ddinas, gan gynnwys Gwestai, Manwerthu a Barrau, ayyb.

- Gofynnodd yr aelodau sut yr eid i'r afael â gofynion ariannu a dywedwyd wrthynt y byddai'n weledigaeth a rennir gan weithio gyda phartneriaid, nid ynglŷn ag ariannu yn unig ond hefyd ynglŷn â sut i blismona canol y ddinas. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai gwaith yr ymchwiliad yn llywio'r gwaith hwn.

- Sylwodd yr Aelodau fod argymhelliad 11 wedi'i dderbyn yn rhannol a gofynasant am sicrwydd y câi hyn ei ystyried a dywedwyd wrthynt y byddai hynny'n digwydd.

CYTUNWYD - y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu i'r Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwr a'r swyddogion perthnasol yn diolch iddynt am fynychu Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ar 7 Medi 2016 ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 25 : CRAFFU CYN PENDERFYNIAD: AILGOMISIYNU CYNGOR A CHEFNOGAETH

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Dan De'Ath, Aelod Cabinet (Sgiliau, Diogelwch ac Ymgysylltu), Sarah McGill, (Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid) Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymunedau a Thai) a Sam Harry (Rheolwr Categori dros Gomisiynu a Chaffael) i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd fod y eitem hon yn galluogi'r Aelodau i graffu cyn y penderfyniad ar Ail-gomisiynu Gwasanaethau Cyngor a Chymorth, cyn ei ystyried yn y Cabinet fis Medi. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Cynghorydd De'Ath yn bresennol ar gyfer elfen gwasanaethau cymorth rhyw-benodol yr adroddiad yn unig; roedd y Swyddogion yn ymdrin ag agweddau eraill yr adroddiad yn absenoldeb y Cynghorydd Elsmore.

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor eu bod wedi derbyn gwybodaeth gyfrinachol (Atodiad G i Adroddiad y Cabinet a oedd ar Atodiad 1 yn eu papurau) ac felly câi rhan o’r cyfarfod ei gynnal yn breifat, mewn sesiwn gaeedig ac ni ganiatawyd i'r Aelodau ofyn cwestiynau mewn perthynas ag Atodiad G tan y sesiwn gaeedig.

Byddai’r sesiwn gaeedig yn dechrau gyda chyflwyniad yn ymwneud ag elfennau cyffredinol y cynigion. Yna bu gan y cyflwyniad adran ar bob maes y cynigion, a gymerid mewn camau.  Gallai'r Aelodau ofyn cwestiynau ar bob maes cyn symud ymlaen.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr i wneud datganiad a dywedodd fod hyn yn ddarn gwaith sylweddol iawn, gyda llawer o fanylion a dyna pham y cafodd ei rannu'n adrannau.  Gydag adnoddau’n lleihau, roedd yn bwysig i bethau gael eu rhoi ar waith er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn cael y deilliannau gorau posibl i gleientiaid.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau cyffredinol gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd na fyddai'r ymagwedd raddol yn golygu elfen o amwysedd ar gyfer y rhai sy'n tendro am ddarpariaeth gwasanaethau yn y ddau gategori.
  Dywedodd y Swyddogion fod pob cam yn perthyn i gontractau penodol sy’n bodoli ar hyn o bryd; ni chafodd ei rannu ac roedd y swyddogion eisoes yn aros i ail-gomisiynu gwasanaethau yn yr ail gam.

- Gofynnodd yr aelodau am y rhesymwaith am y fath leihad o ran darparwyr yn gyffredinol a’r rhesymwaith y tu ôl i'r graddfeydd amser, oherwydd bod y rhain yn seiliedig ar ragfynegiadau o ran y grant pobl a gefnogir yn cael ei leihau, ond yn aros o hyd am Setliad Llywodraeth Cymru a gwnaethant ystyried a fyddai’n well aros tan y flwyddyn nesaf pan fyddai’r rhain yn hysbys.
  Esboniodd yr Swyddogion eu bod wedi rhoi ystyriaeth sylweddol i niferoedd darparwyr, roedd angen darbodion maint i amddiffyn gwasanaethau i gleientiaid; byddai’n galluogi mwy o arbenigrwydd a byddai natur gydgysylltiedig y gwasanaethau yn galluogi mwy o hyblygrwydd.  Câi toriadau ei gwneud o fis Ebrill 2017, ac os na chânt eu gwneud, byddai’r hyblygrwydd yn galluogi i ragor o arian ei ychwanegu os yw ar gael.    Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod cynaliadwyedd yn hollbwysig mewn cyfnod o doriadau o flwyddyn i flwyddyn; roedd angen i gontractau fod o faint a allai ymdopi â’r sefyllfa.

- Trafododd yr Aelodau ddarpariaeth iechyd meddwl mewn gwasanaethau generig a phenodol ac roeddent eisiau bod yn ofalus o ran y posibilrwydd bod darbodion maint ac arbenigedd gwell trwy beidio â rhannu'r gwasanaethau hyn.

- Gofynnodd Aelodau a oedd disgwyliad y gallai'r darparwyr fod â threfniant ymbarél er mwyn dileu'r risg i'r Cyngor.
  Dywedodd y Swyddogion mai dyma oedd y disgwyliad ac y buont yn benodol iawn y gallai hyn fod yn 1 darparwr neu gonsortia; hynny yw, yn agored i bawb.

Rhyw-benodol

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a soniodd am y gwaith a oedd yn cael ei wneud gyda llawer o grwpiau gan gynnwys Cymorth i Fenywod a defnyddwyr gwasanaethau a nododd fod y gwasanaeth ar gyfer dynion hefyd.

Darparwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar Ail-gomisiynu Gwasanaethau Rhyw-benodol; gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Ystyriodd yr Aelodau Weithwyr Cyffredinol gan geisio sicrwydd y byddai arbenigedd yn aros mewn perthynas â Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig gan fod cyfraddau euogfarnu yn cynyddu.
  Cytunodd y Swyddogion ei fod yn bwysig cadw’r arbenigedd a nodasant y dylai fod gan y sefydliad arbenigedd cyfreithiol hefyd.  Ar hyn o bryd mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a gweithwyr cymorth yn ôl yr angen; byddai rhai yn gweithio ar draws ond byddai’r arbenigedd yn aros.

- Mewn perthynas â Rhanddeiliaid, ystyriodd yr Aelodau y gellid cynnwys y CPS a’r Weinidogaeth Gyfiawnder gan fod ganddynt rolau allweddol; roedd Swyddogion yn credu bod hwn yn awgrym da.

- Ystyriodd yr Aelodau y mater o anifeiliaid anwes a oedd angen eu hystyried a nododd y bydd y Dogs Trust yn maethu cŵn.
  Cytunodd y Swyddogion fod hynny'n ystyriaeth bwysig a hefyd ei fod yn bwysig symud pobl yn gyflym i lety lle gallant fynd â'u hanifeiliaid anwes, yn hytrach nag i mewn i loches.

- Mewn perthynas â chaledu targedau, nododd yr Aelodau fod angen ystyried nid yn unig y cyflawnwr ond yn ogystal y teulu, ffrindiau a’r gymuned leol.
  Ystyriodd y Swyddogion fod hyn yn broblem fawr; buont yn cyfarfod â'r heddlu sydd ag arbenigedd mewn trais domestig a nodasant fod pob achos yn wahanol iawn ac weithio nid oedd yn addas i bobl aros pe bai teulu yn yr ardal.

- Croesawodd yr Aelodau gydgysylltu gwasanaethau a’i ddeall.
  Nododd yr Aelodau o’r cyflwyniad y byddai i’r contract 4 cydran wahanol a gofynasant a fyddai cronfa o dystiolaeth ar gyfer y ddarpariaeth gwasanaethau wrth ei sefydlu.  Dywedodd y Swyddogion eu bod wedi edrych ar ymchwil a gwaith yr ymgymerwyd ag ef gan Gynghorau eraill; byddai newidiadau yn seiliedig ar yr hyn sy’n digwydd mewn mannau eraill ond ni fyddai’n rhy ragnodol.

- Wrth gyfeirio at yr Adroddiad Bywydau Diogel, o'r blaen roedd yr Aelodau wedi ceisio sicrwydd y câi grwpiau a dangynrychiolir eu cynnwys fel bod ganddynt gyfle cyfartal i gael mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau.
  Dywedodd yr swyddogion fod yr holl staff yn hyfforddedig ac yn gwybod y dylent ofyn cwestiynau os byddant yn credu bod rhywbeth o'i le; roedd hyn yn cynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd.

- Gofynnodd yr aelodau, mewn perthynas â'r darbodion maint, pa fecanweithiau oedd ar waith i sicrhau y câi'r rhain eu cyflawni mewn perthynas ag argostau darparwyr fel costau swyddfa gefn/rheoli ayyb.
  Esboniodd y Swyddogion y byddai'n broses gystadleuol ac phe byddai costau rheoli darparwr yn rhy uchel, ni fyddent yn gystadleuol iawn. Ychwanegodd y Swyddogion y byddent yn disgwyl gweld sut y caiff y sefydlu ei drefnu, yn enwedig os mae consortiwm yw; byddai angen iddo fod yn arloesol.

- O ran ymgynghori, ystyriodd yr Aelodau, mewn gweithdy tendro, byddai'r sylwadau'n gadarnhaol oherwydd ni fyddai pobl eisiau difetha unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol i gael tendr llwyddiannus drwy wneud sylwadau negyddol.
  Anghytunodd y swyddogion a dywedasant eu bod wedi gweithio gyda darparwyr ers dros flwyddyn ar y project gateway ac maent yn cynnal deialog parhaus o ran gwasanaethau; nid oeddent yn ystyried y byddai'r darparwyr wedi tynnu yn ôl pe bai materion go iawn; roedd y swyddogion yn hyderus ei fod yn ymgynghoriad teg ac yr ymgynghorwyd â phawb.

- Trafododd yr aelodau y Siop Un Stop, gan ystyried ei fod yn bwysig y byddai'n cael ei hysbysebu'n helaeth, ond yn ddisylw ac yn ddiogel.
  Yn ogystal, byddai ffyrdd eraill o gael mynediad at y gwasanaeth fel galwadau ffôn ac e-byst.

- Nododd yr Aelodau bwysigrwydd adolygiadau rheolaidd parhaus; dywedodd yr swyddogion y byddai hyn yn gyfle go iawn i gydlynu gwasanaethau a'u gwneud yn hyblyg dros dro; byddai'n anodd iawn eu gwneud yn hyblyg pe bai contractau ar wahân; byddai'r adolygiadau'n digwydd fel rhan o reolaeth contractau.

- Nododd yr Aelodau, ar hyn o bryd roedd 68 uned a gofynasant sut byddai hyn yn newid a gofynasant hefyd beth fyddai'r gymhareb rhwng pris ac ansawdd a sut gallai'r swyddogion sicrhau na fyddai ras tua'r gwaelod.
  Esboniodd y Swyddogion mai 1 person yn cael ei gefnogi ar unrhyw un adeg yw uned; o ran maint, nid oedd y swyddogion yn awgrymu lleihad ond y byddai darbodion maint yn golygu gwasanaethau mwy cadarn; byddai lleiafswm i'w cefnogi er mwyn bodloni rheoliadau statudol. Dywedodd y swyddogion a byddi cydbwysedd 50/50 rhwng pris ac ansawdd gydag ansawdd penodol o ran gwasanaethau er mwyn osgoi ras tua'r gwaelod; edrychid ar bob elfen er mwyn sylwi ar yr agwedd o ansawdd.

- Gofynnodd yr Aelodau am niferoedd y dioddefwyr gwrywaidd a dywedwyd wrthynt bod yr adroddiad defnyddwyr presennol y gwasanaeth 2.23% yn wrywaidd a 97.77% yn fenywaidd; ond nododd mai ffigyrau dangosol yw'r rhain.

- Gofynnodd y Cadeirydd y caiff y Pwyllgor y cyfle i ymgymryd â chraffu cyn y Penderfyniad Cabinet terfynol a chytunodd y swyddogion i ddod â’r eitem yn ôl i’r pwyllgor pan gaiff y pethau penodol eu terfynu.

Gwahoddodd y Cadeirydd Gwendolyn Sterk o Cymorth i Fenywod Cymru i’r cyfarfod ac i wneud ei cyflwyniad a datganodd ei bod yn croesawu cael ei chynnwys yn yr ymgynghoriad a'r trafodaethau cyfredol hyn; roedd yn ymagwedd a arweinir gan angen yr oedd angen iddi fod yn gynaliadwy. Ychwanegwyd bod Caerdydd mewn sefyllfa unigryw o ran y bu gwasanaethau penodol da ar waith ers rhai blynyddoedd; fodd bynnag, roedd rhai bylchau o ran trais rhywiol ar hyn o bryd. Dywedodd Ms Sterk y byddai hi’n argymell consortia i adeiladau ar arbenigedd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai‘r Ddeddf yn debygol o gynyddu’r galw sydd eisoes yn uchel. Roedd angen i ddarpariaeth ar gyfer pobl gwrywaidd fod yn gymesur ond nid er mwyn niweidio gwasanaethau rhyw-benodol/ymatebol i fenywod yn unig. Ychwanegodd Ms Sterk y byddai hi'n fodlon gweithio/ymgysylltu â'r CPS â’r Weinyddiaeth Gyfiawnder pe byddai gofyn.

Nodwyd bod angen dealltwriaeth glir o beth yw lloches o ran nid llety yw yn unig; mae hefyd yn cefnogi anghenion ac yn wasanaeth cyfannol.

O ran gorbenion y darparwyr, dywedodd Ms Sterk fod gan y rhan fwyaf orbenion isel iawn gan eu bod yn sefydliadau bach iawn.

O ran y cydbwysedd pris/ansawdd, mynychodd Ms Sterk eu phryder am y cydbwysedd 50/50 gan fod gan Lywodraeth Cymru ganran uwch yn seiliedig ar yr elfen o ansawdd.

Diolchodd y Cadeirydd Ms Sterk am y cyfraniad at y cyfarfod a gwahoddodd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Trafododd yr Aelodau Lochesau a niferoedd y bobl a gaiff eu troi i ffwrdd ohonynt a gofynnwyd a oedd y capasiti tymor byr yn broblem i Gymorth i Fenywod.
  Dywedodd Ms Sterk ei fod yn bryder enfawr yr oedd yn ei godi ar lefel Genedlaethol gan y bydd menywod yn aml yn symud ar draws awdurdodau.

<u>Cymorth Generig ac ar gyfer Pobl Hŷn pan fo ei angen</u>

Darparwyd cyflwyniad i’r Aelodau ar Gymorth Generig ac ar gyfer Pobl Hŷn pan fo ei angen; gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Trafododd aelodau Wardeiniaid mewn llety byw â chymorth a dywedwyd wrthynt nad oedd wardeiniaid yn cael eu tynnu ymaith, y broblem oedd o ble cawsant eu cyllid, h.y. trwy'r rhent; byddai hyn yn fater i'r landlordiaid unigol.

- Tybiodd yr Aelodau a fyddai effaith anghymesur ar ddarparwyr bach, a fyddai'n ffafriol i fenter gymdeithasol a sut y câi hyn ei gydbwyso; er bod yr Aelodau yn deall ei fod yn gwneud synnwyr o safbwynt contract.
  Dywedodd yr swyddogion eu bod angen sicrhau bod y safle yn gynaliadwy gyda chyllidebau sy’n lleihau; nid oedd yn bosibl bellach i barhau gyda llawer

o drefniadau ar waith; roedd angen ymgyrch i ddarparu gwasanaethau mewn sefyllfa anodd.

- Gofynnodd yr aelodau pa waith oedd yn cael ei wneud i sicrhau na châi sgiliau arbenigol eu colli pe bai darpariaeth yn cael ei dyfarnu i gonsortia a sut y câi arian ei arbed gan yr ymagwedd hon.
  Dywedodd y Cyfarwyddwr, yn y broses tendro, câi ei wneud yn glir iawn y byddai angen i sgiliau fod ar gael. O ran arbedion ar hyn o bryd mae swyddi gweigion cyfredol mewn darpariaeth gwasanaethau cyfredol yn fwy na 100; disgwyliwyd y câi gwasanaethau eu darparu'n fwy eang i bobl gartref drwy un set o drefniadau ac felly yn darparu darbodion maint.

- Ceisiodd yr Aelodau sicrwydd y byddai gweithwyr Cymorth Generig pan fydd eu hangen yn ymwneud ag unigolion sydd ag anghenion eraill fel y sylwyd yn eu hasesiad o'r effaith amgylcheddol; esboniodd y swyddogion y byddai gweithwyr Cymorth Generig pan fydd eu hangen hefyd yn gallu ymwneud â materion iechyd meddwl lefel isel ble na fyddai unrhyw wasanaethau ar waith.

- Roedd yr Aelodau'n pryderi y gallai fod bylchau rhwng cam 1 a cham 2; esboniodd y swyddogion eu bod yn ail-gomisiynu gwasanaethau generig ac y byddai gwasanaethau arbenigol yn parhau, byddent yn nodi'r rhai sydd angen arbenigedd ac yn adnabod rhai y mae'n anodd ymgysylltu â nhw, felly byddent yn gofyn am wybodaeth fwy arbenigol yn y meysydd hyn, yn ogystal â darparu ar gyfer arall.

- Parthed Porth Pobl Hŷn, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn bwydo i mewn iddo a hefyd i mewn i gymorth pan fydd ei angen

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr y Pwyllgor Rhanbarthol ar gyfer darparwyr a landlordiaid, Frances Beecher, Ceri Meloy, Mark Sheridan a Philip Richardson, i'r cyfarfod, gan wahodd cwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Ceisiodd yr Aelodau farn ar y cyflwyniadau a roddwyd yn y cyfarfod.
  Dywedodd Mark Sheridan eu bod wedi cymryd toriadau mewn ffordd ad hoc a chroesawyd yr ymagwedd a gymerwyd bellach. Ychwanegodd nad oeddent wedi clywed digon o dystiolaeth i benderfynu a fyddai ras i'r gwaelod. Yn olaf, dywedodd fod pryderon ynglŷn â chostau rheoli, oherwydd y byddai sefydlu consortia yn costio arian.

  Dywedodd Ceri Molloy fod ganddi bryderon ynglŷn â staff a leihawyd, trosglwyddo TUPE, diswyddiadau ayyb. Ychwanegodd nad oedd gwybodaeth ar y cam tendro yn aml yn ddigonol i anfon i tendr cystadleuol i mewn

  Dywedodd Phillip Richardson y byddai niferoedd y darparwyr yn lleihau o 14 i 2 a bod ganddo bryderon o ran beth fyddai'n digwydd pe bai 1 yn mynd i mewn i fesurau perfformiad/gweinyddiaeth; a beth gallai'r Cyngor ei wneud i ymyrryd/ a allai 1 darparwr ymdopi.

  Dywedodd Frances Beecher y bu'n gadarnhaol bod cynrychiolwyr y darparwyr yn gallu dod i'r pwyllgor a bod yn agored ac yn onest, heb gael eu beirniadu

gan y Cyngor.   Ystyriodd fod torri i lawr o 14 i 2 yn ormod a'i fod yn ymddangos bod consortia oedd y ffordd orau ymlaen.  Fodd bynnag, nid oedd yn ystyried y byddai'n darparu darbodion maint; bu toriadau dros y 5 mlynedd diwethaf a ni ellid cynnal rhagor, ond gall darparwyr ddarparu'r sgiliau a'r arbenigedd o hyd.  Ychwanegodd ei bod yn ystyried bod y graddfeydd amser yn rhy heriol a gofynnodd am estyniad am ymglymiad priodol gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at yr ymgynghoriad a gofynasant a gafodd cynrychiolwyr eu gwahodd i'r gweithdai ymgynghori.
  Dywedodd Francer Beecher y cawsant eu gwahodd ond nododd fod yr holl bobl yn yr ystafell yn cystadlu gyda'i gilydd felly gallent ond fod yn agored i ryw raddau penodol.  Dywedodd Mark Sheridan nad oedd rhai barnau wedi cael eu hystyried ond roeddent yn teimlo y gallent godi pryderon.

I gloi, gofynnodd Frances Beecher bod y Pwyllgor yn argymell bod nifer y darparwyr yn fwy na 2; bod darparwyr, yn sicr, yn cefnogi consortia ond na fyddai'n darparu darbodion maint; roeddent yn cydnabod bod llai o arian yn golygu llai o unedau a gofynasant y câi'r graddfeydd amser eu hymestyn tan haf 2017 i alluogi ymgynghoriad priodol a llawn.

Gwahoddodd y Cadeirydd y swyddogion yn ôl i'r bwrdd i ymateb i sylwadau a wnaed:

Dywedodd y Cyfarwyddwr, o ran nifer y darparwyr, dim ond y cymorth generig a gafodd ei ystyried a byddai'r darparwyr arbenigol yn aros.  Pe bai 'n ymddangos nad oedd contractau'n gweithio, byddai'r Cyngor yn gallu ymyrryd a'u canslo; roedd Consortia yn opsiwn ond ni allai fod yn ofyniad, byddai'r Cyngor yn annog BBaChau i weithio gyda'i gilydd, sut bynnag y maent yn ei wneud a bod consortia yn broses hirfaith a chyfreithiol; Câi graddfeydd amser eu trafod mewn sesiwn gaeedig; ar hyn o bryd roedd 100+ o unedau heb eu defnyddio, felly roedd lleihau unedau cymorth yn ffordd o fynd i'r afael â hyn; bu tystiolaeth gan y Gateway yn amhrisiadwy ac wedi dweud wrth y swyddogion, mewn rhai achosion bu'r cymorth yn gyfredol am ormod o amser, felly roedd monitro yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau cymorth yn y Ddinas.

<u>Gwasanaethau Cyngor</u>

Darparwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar Wasanaethau Cyngor a gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau:

- Roedd yr aelodau'n pryderu bod mwy a mwy o gymorth yn cael ei ddarparu'n fewnol ac yn benodol yn darparu cyngor a gwnaethant dybio a oedd unrhyw wybodaeth ar gael ar gost y cyngor a ddarperir gan y Cyngor o'i gymharu â chyngor a gaiff ei gontractio allan.
  Dywedodd y Swyddogion eu bod wedi ymgymryd ag ymarfer i weld a allent fod wedi darparu'r gwasanaethau'n fewnol a gallai fod wedi'i wneud, roedd rhagor o gyfraniadau pensiwn ond caiff staff y Cyngor eu talu llai na'r darparwyr.  Ychwanegodd y Cyfarwyddwr nad oedd unrhyw bryderon ynglŷn ag ansawdd y cyngor ond roedd angen bod â dewis ac ni all y Cyngor fidio am gyllid allanol, fel y gall darparwyr ei wneud.

- Roedd yr aelodau’n pryderu am ddibynnu ar gyllid allanol gan ei fod yn bosibl na fydd hyn yn gynaliadwy/amnewidiadwy.
  Dywedodd y swyddogion fod hyn yn risg barhaol yn yr hinsawdd bresennol.

- Gofynnodd yr Aelodau a gâi gorfod mynd i dribiwnlysoedd ei gynnwys yn y contract a dywedwyd wrthynt na fyddai’n gynwysiedig gan nad oedd yn y trefniadau cyfredol ychwaith.

Croesawodd y Cadeirydd Sheila Hendrickson-Brown o C3SC i'r cyfarfod a'i gwahodd i roi ei chyflwyniad, lle diolchodd i’r Pwyllgor am y cyfle i fod yn bresennol yn y cyfarfod. Cydnabu bod heriau ariannol sylweddol a bod angen parhau i ymateb i wasanaethau, ac y bu bylchau mewn rhai gwasanaethau. Nododd y bu llawer o'r ymatebion yn ar yr ochr cyflenwi yn hytrach nag ar yr ochr galw a gallai fod dadansoddiad o bwy nad oedd yn cael mynediad at wasanaethau ac a oedd hyn yn cyfrannu at allgau cymdeithasol. Dywedwyd wrth yr Aelodau na soniwyd am wirfoddolwyr ond dylid eu ystyried yn llawn. Bu adborth o aelodau'r trydydd sector yng Nghaerdydd yn gadarnhaol a gwelwyd bod Caerdydd yn ceisio heriau a mynd i'r afael â nhw, fodd bynnag, roedd angen deialog parhaus ynglŷn â gwasanaethau arloesol mewn amgylchedd heriol.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Swyddogion yn ôl i’r bwrdd er mwyn ymateb i'r sylwadau.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau bod 70 o wirfoddolwyr sy’n gweithio yn yr Hybiau.
- Bydd Swyddogion yn ceisio adnabod pobl y gall fod angen gwasanaethau arnynt a’u rhoi ar y trywydd cywir pan fyddant yn gallu gwneud hynny.
- Nid oedd Ymgynghoriad Ddefnyddwyr Gwasanaethau'n benodol ynglŷn â'r newidiadau oherwydd ni fyddai'r gwasanaeth yn lleihau ond ymgymerir ag arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid cyfredol, sy’n darparu adborth cadarnhaol iawn ar wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau wedi'u contractio allan ill dau.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr Aelodau sut mae Caerdydd yn cymharu â gweddill y DU o ran gwasanaethau cynghori a dywedwyd wrthynt ei fod yn anodd iawn cymharu gan fod llawer iawn o ymagweddau gwahanol.

- Gofynnodd yr Aelodau a ymgynghorwyd â’r bobl a gafodd eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol a dywedodd y Swyddogion eu bod wedi derbyn adborth o fodlonrwydd uchel ar gyfer pob gwasanaeth.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau a’r cyhoedd y byddai'r Pwyllgor bellach yn mynd i sesiwn gaeedig i ystyried gwybodaeth gyfrinachol - felly gofynnwyd i aelodau'r cyhoedd adael yr ystafell.

Ail-gynullodd y cyfarfod mewn sesiwn agored i drafod y ffordd ymlaen a:

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwr a’r swyddogion perthnasol yn diolch iddynt am fynychu Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ar 7 Medi 2016 ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

26 : BUSNES Y PWYLLGOR

Cafodd yr Ohebiaeth i’r Pwyllgor ac o’r Pwyllgor ei hamlinellu a’i nodi.

Dywedwyd wrth yr aelodau, ar 28 Mehefin 2016, cyfarfu'r Pwyllgor mewn modd fforwm i ystyried eitemau a materion i’w cynnwys ar y rhaglen waith bosibl ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol i ddod. Yn y cyfarfod, ystyriodd yr Aelodau ystod eang o eitemau posibl, gan gynnwys awgrymiadau gan Aelodau a swyddogion, adroddiadau perfformiad, eitemau cyn penderfyniad, adolygu polisïau a gwaith datblygu ac adroddiadau monitro, y gellid eu cynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor 2016-17. Gofynnwyd i'r aelodau am eu barn ar a ddylid brysbennu materion cyllidebol o dan y Panel Perfformiad ac wedyn dod â nhw gerbron y Pwyllgor; ar ôl trafod y llwyth gwaith posibl, ystyriwyd mai hyn fyddai’r dewis gorau gan y byddai ychwanegu materion cyllidebol i agendâu'r pwyllgor yn dileu'r hyblygrwydd buddiol a oedd gan yr agendâu ar hyn o bryd.

Ceisiwyd barn yr aelodau ar y rhaglen waith ddrafft; gofynnodd yr Aelodau pryd y byddent yn gallu craffu ar yr adroddiad ar Sipsiwn a Theithwyr a dywedwyd wrthynt y byddai’n dibynnu ar y dyddiad y bydd yn mynd gerbron y Cabinet ond byddai eitemau cyn penderfyniad.

Yn gyffredinol, roedd yr Aelodau y fodlon ar y rhaglen waith fel yr oedd ac roeddent yn ddiolchgar am yr hyblygrwydd yr oedd ganddi i alluogi i faterion eraill gael eu hystyried yn ôl yr angen: roedd yr Aelodau yn dymuno diolch i Angela Holt am ei gwaith caled wrth lunio’r rhaglen waith.

PENDERFYNWYD: I

i. Nodi cynnwys yr atodlen gohebu.
ii. Cymeradwyo’r rhaglen waith arfaethedig.

27 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu’r Gwasanaethau Oedolion a Chymunedau ar 5 Hydref 2016 am 5.00pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.